

2019 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A489
(Glantwymyn i Fachynlleth,
Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder
Dros Dro a Dim Goddiweddyd)
2019

Gwnaed 2 Ionawr 2019

Yn dod i rym 10 Ionawr 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A489, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984⁽¹⁾, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Glantwymyn i Fachynlleth, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2019 a daw i rym ar 10 Ionawr 2019.

2019 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A489 Trunk Road (Cemmaes Road to Machynlleth, Powys) (Temporary Speed Restrictions and No Overtaking) Order 2019

Made 2 January 2019

Coming into force 10 January 2019

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A489 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽¹⁾, make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A489 Trunk Road (Cemmaes Road to Machynlleth, Powys) (Temporary Speed Restrictions and No Overtaking) Order 2019 and it comes into force on 10 January 2019.

(1) 1984 c.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchymynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r luoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yruru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yruru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 10 Ionawr 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A489 yn Sir Powys sy’n ymestyn tua’r de-orllewin o’i chyffordd â’r A470 wrth gylchfan Glantwmyn hyd at ganolbwyt ei chyffordd â’r A487 ym Machynlleth;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r luoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yruru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yruru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

(2) Diwygiyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadroleiddio 2015 (p. 20).

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A489 Caersws to Machynlleth Trunk Road in the County of Powys which extends from its junction with the A470 at Cemmaes Road roundabout in a south-westerly direction to the centre-point of its junction with the A487 at Machynlleth;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 08:00 hours on 10 January 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restrictions and Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed 30 miles per hour on the length of the trunk road.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiwedd y unrhyw gerbyd gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwysyo

8. (1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (GLANTWYMYN I FACHYNLETH, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A489, neu gerllaw iddi, rhwng Glantwymyn a Machynlleth, Powys.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road.

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction referred to in article 5 is in operation.

Susensions

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 are in operation.

Application

8. (1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4, 5, and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

2 January 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

THE A489 TRUNK ROAD (CEMMAES ROAD TO MACHYNLETH, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A489 Trunk Road between Cemmaes Road and Machynlleth, Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 30 mya, yn ôl y gofyn, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

ii) gosod terfyn cyflymder o 10 mya pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn; a

iii) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau brys a cherbydau ar gyfer y gwaith, rhag goddiwedd yd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwyllir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 08:00 o'r gloch ar 10 Ionawr 2019 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 18:00 o'r gloch ar 31 Mawrth 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwyllir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A489 yn Sir Powys sy'n ymestyn tua'r de-orllewin o'i chyffordd â'r A470 wrth gylchfan Glantwymyn hyd at ganolbwyt ei chyffordd â'r A487 ym Machynlleth.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) impose either a 40 mph or 30 mph speed limit, as required, on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

ii) impose a 10 mph speed limit during convoy working on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice; and

iii) prohibit all vehicles, with exemption for emergency and works vehicles, from overtaking during convoy working on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

It is expected that the restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 08:00 hours on 10 January 2019 and operate intermittently until 18:00 hours on 31 March 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of the restrictions and prohibition will be displayed approximately 2 weeks before the start of any works.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the A489 trunk road in the County of Powys which extends from its junction with the A470 at Cemmaes Road roundabout in a south-westerly direction to the centre-point of its junction with the A487 at Machynlleth.

